## Beth os ......

........oeddech yn cuddio nifer gwahanol o smotiau?

........oeddech yn chwilio am y cyfanswm uchaf y gallech ei guddio?

........oeddech yn chwilio am y cyfanswm isaf y gallech ei guddio?

.......oeddech yn adio'r smotiau y gallwch eu gweld?

.......oes gennych dri dis?




Heriau Digit Dog © Lynwen Barnsley 2017

This FREE resource is available from: www.primarytreasurechest.com

# Her smotyn wedi'u cuddio

Rhoais i un ddis ar ben un ddis arall.

Roedd 7 smotyn

Tybed a alla i guddio 7 smotyn mewn ffordd wahanol..........





**Cydiwch yn yr her** – cyn taclo'r her, gadewch i ddysgwyr drafod beth yw amcan yr her yn eu barn nhw. Anogwch ddysgwyr i ddweud beth maen nhw'n ei weld a. Defnyddiwch ddisiau mawr i fodelu'r her. Gofynnwch i ddysgwyr ddefnyddio dau ddis i ddangos beth mae Digit Dog wedi'i wneud.

Beth ydych chi'n sylwi arno? Beth mae Digit Dog wedi bod yn ei wneud? Esboniwch yn eich geiriau eich hun. Pa rifau sydd wedi eu cuddio?

Anogwch ddysgwyr i roi sylwadau ar esboniadau ei gilydd: Ydych chi'n cytuno gyda'r hyn y mae eich ffrind newydd ei ddweud?

## Beth fydd yr ateb yn eich barn chi?

Anogwch ddysgwyr i amcangyfrif a gwneud rhagfynegiadau.
Allwch chi guddio 7 smotyn mewn ffordd wahanol? Faint o ddulliau sydd o guddio 7 smotyn, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

**Dywedodd Calculating Cat ...**



Bydd 4 dull o guddio 7 smotyn.

Beth ydych chi'n meddwl? Ydych chi'n cytuno â hi?
Pam mae / nad yw hi'n iawn?

## Gwneud yr her

Gofynnwch i ddysgwyr awgrymu dulliau taclo'r her a chofnodi eu gwaith.
**Gofynnwch:** Sut ydych chi'n mynd i gofio'r dulliau gwahanol rydych chi wedi dod o hyd iddynt?
Darparwch ddigon o ddisiau fel bod modd dangos parau gwahanol fel canlyniadau. Faint o ddulliau sydd i chi guddio 7 smotyn? Ydych chi wedi dod o hyd i'r holl ddulliau? Sut ydych chi'n gwybod? Sut gallwch chi wirio a ydych wedi colli unrhyw rai?

## Trefnwch eich gwaith

Anogwch ddysgwyr i drefnu eu gwaith, bod yn systematig a chwilio am batrymau.
**Awgrymwch :** roi'r parau o ddisiau mewn llinell a chwilio am batrymau. Ysgrifennu i lawr ar ddarnau gwahanol o bapur pa smotiau sydd wedi eu cuddio, a'u trefnu / cymharu. Rhowch eich patrymau yn eu trefn. Pa batrymau ydych chi'n sylwi arnynt? Os byddwch yn cuddio 1 ar y dis uchaf, pa rif ydych chi'n cuddio ar yrun ar y gwaelod? Beth am 2 ar y dis uchaf?



Chwiliwch yn graff am batrymau

## Esboniwch beth rydych yn meddwl

Anogwch ddysgwyr i ddisgrifio ac esbonio beth maen nhw'n ei wneud.
Chwiliwch am y defnydd o iaith fathemategol gywir.
Disgrifiwch beth rydych wedi ei wneud. Sut daethoch chi o hyd i'r dulliau gwahanol o guddio 7 smotyn? A ddaethoch chi o hyd i'r holl ddulliau posib? Sut ydych chi'n gwybod?
Darbwyllwch eich hun. Darbwyllwch eich ffrind. Profwch hynny!

Heriau Digit Dog © Lynwen Barnsley 2017